# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Hydref 2016

Amser: 08.30 – 09.09

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn gwneud datganiad am Gymunedau Cryf.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gwneud datganiad am yr Arllwysiad Olew yn Nantycaws, Caerfyrddin fel yr eitem olaf o fusnes cyn amser pleidleisio.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i aildrefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 19 Hydref 2016 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)~~ – wedi symud i 2 Tachwedd.

**Dydd Mercher 2 Tachwedd 2016 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (~~120~~ 60 munud) – *1 awr wedi symud i 9 Tachwedd*

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 19 Hydref 2016 –**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor gan gynnwys Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Phlant ar eu Pen eu Hunain (30 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru Llywodraeth y DU (60 munud)

**Dydd Mercher 2 Tachwedd 2016 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

**Dydd Mercher 9 Tachwedd 2016 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**3.4 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cais am ddadl ar ei adroddiad ar Fil Cymru Llywodraeth y DU**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnwys dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru Llywodraeth y DU ar yr amserlen.

Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y bydd Bil Cymru yn destun cynnig cydsyniad deddfwriaethol a dadl maes o law, cytunodd y Rheolwyr Busnes na ddylid cyflwyno dim gwelliannau i'r cynnig tynnu sylw.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan gyfarfod yn y dyfodol, i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

## 5 Defnydd o Amser yn y Cyfarfod Llawn

### 5.1 Datganiadau'r Aelodau - canllawiau ar gyfer Aelodau

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y canllawiau drafft sydd i'w dosbarthu i Aelodau cyn cyflwyno 'datganiadau 90 eiliad', a chytunwyd i ddosbarthu'r canllawiau i Aelodau yn amodol ar wneud rhai newidiadau.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y cyntaf o'r datganiadau hyn ar yr amserlen ddydd Mercher 2 Tachwedd.

## 5.2 Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes bapur a oedd yn crynhoi'r diwygiadau a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad a'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor a oedd yn ei ragflaenu ar gynnal Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad, ochr yn ochr â phapur ar gyflwyno Cwestiynau Amserol.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Clerc weithio gyda swyddogion y Llywodraeth i gael eglurhad o ran ffigurau cymharol â deddfwrfeydd eraill, ac i bapur diwygiedig gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yng nghanol mis Tachwedd.